

RYDYM YN RECRIWTIO

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Rheolwr Bwyty - Caffi R

Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £30,095 to £32,798 y flwyddyn

Oriau : 37 awr yr wythnos

Contract : Parhaol

Am y Rôl

Wedi'i leoli yng Nghanolfan Grefft Rhuthun, mae Caffi R yn cynnig profiad bwyta unigryw i'r gymuned gyfan, gyda naws gelfyddydol fodern a bwydlen gyfoes. Ar ôl cael ei adnewyddu'n ddiweddar, mae Caffi R yn croesawu cwsmeriaid hen a newydd yn ôl, gan gynnwys cymdeithion 4 coes!

Fel Rheolwr y Bwyty, chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cwsmer yn cael profiad gwych, a bod y staff yn cael eu harwain a'u cymell yn dda.

Byddwch yn creu ac yn rheoli rotâu staff, yn monitro a rhagweld incwm a gwariant ac yn datblygu ac arwain mentrau newydd i dyfu'r masnach a gwella profiad y cwsmer. Byddwch hefyd yn gyfrifol am hyfforddi a datblygu staff ac am sicrhau bod arferion hylendid bwyd da yn cael eu sefydlu.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd rydyn ni'n ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem ni'n disgwyl ichi gymryd cyfrifoldeb am hyn, gan sicrhau bod dyletswyddau glanhau a chynnal a chadw yn cael eu cyflawni at y safon disgwyliedig.



Rheolwr Bwyty - Caffi R

Amdanoch chi

Byddwch yn frwdfrydig ac yn angerddol, gyda sgiliau pobl rhagorol. Bydd y person delfrydol yn drefnus iawn ac yn gallu defnyddio ei fenter i ddatrys problemau yn gyflym ac yn effeithiol, ac yn ddigynnwrf.

Yn ddelfrydol, bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio o fewn amgylchedd sy'n wynebu cwsmeriaid neu letygarwch, ynghyd â chymhwyster Hylendid Bwyd Lefel 2. Fodd bynnag, rydym yn hapus i'ch cefnogi i gyflawni'r cymhwyster hwn os nad oes gennych hwn eisoes. Rydyn ni wrth ein bodd yn datblygu ein staff, felly mae'r awydd i ddysgu a datblygu yn angenrheidiol i'r rôl hon.

Mae'r rôl hon yn cynnwys arwain eraill ac felly mae sgiliau arwain yn bwysig ar gyfer y swydd hon. Y sgiliau arwain rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw yw:

- Y gallu i ysbrydoli, cymell a grymuso eraill
- Angerdd i ddarparu gwasanaethau rhagorol i gwsmeriaid
- Dibynadwyedd a gwytnwch
- Gonestrwydd, gyda'r gallu i gymryd cyfrifoldeb a gofyn am help pan fo angen

Os ydych chi'n arweinydd cyfeillgar sy'n canolbwyntio ar bobl, yn chwilio am gam i fyny yn eich gyrfa, ac yr hoffech chi weithio mewn Cwmni hynod lwyddiannus, cyflym, yna gallai hyn fod yn berffaith i chi.



Rheolwr Bwyty - Caffi R

Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae Hamdden Sir Ddinbych wedi datblygu portffolio sy'n arwain y sector o gyfleusterau iechyd a ffitrwydd, ac mannau bwyd a diod. Gyda 7 bwyty, bar a Chaffi rhagorol ledled Sir Ddinbych, rydym yn cymharu â'r gorau yn y sector preifat, gan ddarparu cydbwysedd bywyd a gwaith heb ei ail i'n staff.

Mae tîm Hamdden Sir Ddinbych yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydym yn gweithio i athroniaeth 'un tîm, un banc' - rydym i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle y gallwch fod wedi'i leoli. Gyda'n gilydd rydym i gyd yn cyfrannu at wneud Hamdden Sir Ddinbych Cyf yn llwyddiannus.

- Byddwn yn sefyll yn ôl ein hegwyddorion uniondeb a gonestrwydd.
- Bydd ein staff yn ymddiried ynom bob amser i wneud yr hyn sy'n iawn fel eu cyflogwr, a'u gwneud yn falch.
- Ni fyddwn byth yn derbyn y status quo. Byddwn yn gweithio'n galetach, yn dod yn gryfach ac yn parhau i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd uchaf i'n cwsmeriaid.



Rheolwr Bwyty - Caffi R

Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Lwfans gwyliau blynyddol yn dechrau ar 33 diwrnod (gyda'r cyfle i brynu mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Caffi R, Canolfan Grefft, Ruthun

Dyddiad Cau: 29 Ebrill 2022

Gwnewch gais drwy: ebostio eich CV i
Dafydd.Howatson@denbighshireleisure.co.uk